

Gwneud Cais am Grantiau a Chynlluniau Garddwriaeth

TAFLEN CYNGOR TECHNEGOL

Cyflwyniad

Yn gyntaf, dylech wirio llyfryn rheolau ategol y cynllun yr ydych yn gwneud cais amdano.

Gallwch weld y llyfryn yma: [Grantiau a Thaliadau Gwledig Llywodraeth Cymru](#).

Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau ac yn cadw atynt.

Mae rhestr ohonynt ar gael [yma](#).

Mae'r grantiau Garddwriaeth o fewn Cynlluniau Gwledig wedi'u hanelu at fusnesau Garddwriaeth sy'n awyddus i ddechrau, datblygu a/neu dyfu ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny heb gyllid allanol.

Os yw'n grant cyfalaf, efallai y bydd angen i'ch busnes dalu canran gyfyngedig o'r swm llawn sydd ei angen. Meddyliwch yn ofalus am wneud cais am gynllun grant cyfalaf.

Ydych chi'n gymwys?

I ddechrau mae'n rhaid i chi:

1. Fod â'ch Cyfeirnod Cwsmer (CRN), os nad oes gennych un bydd angen i chi wneud cais am un drwy [Daliadau Gwledig Cymru ar-lein](#) (RPW Ar-lein)
2. Fod yn fusnes garddwriaethol uchelgeisiol neu bresennol (ffrwythau bwytadwy, llysiâu, planhigion addurniadol, planhigfa flodau a choed)

Mae angen i chi fod yn (neu yn dechrau) fusnes garddwriaethol gydag un o'r strwythurau busnes canlynol:

- Unig fasnachwr
- Busnes cydweithredol
- Sefydliad yn y sector gwirfoddol
- Cwmni Cyfyngedig Preifat neu Gyhoeddus

Gall grwpiau o gynhyrchwyr garddwriaeth fasnachol fod yn gymwys hefyd.

Gofyniad	Beth mae'n ei olygu	A oes cymorth ar gyfer hyn?
Cwblhau ffurflen gais	Mewngofnodwch i'ch cyfrif RPW Ar-lein i gael mynediad i'r ffurflenni cais ar-lein. Gellir dod o hyd iddynt naill ai ar y tab Hafan neu Ffurflenni.	Eich busnes chi sy'n gyfrifol am gwblhau'r ffurflen gais.
Tystiolaeth	<p>Darparwch dystysgrifau cymwysterau a thystiolaeth o unrhyw weithgaredd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).</p> <p>Os oes angen, dylid darparu tystiolaeth eich bod yn rhedeg busnes (Hyd at dair blynedd o gyfrifon achrededig neu brawf o fenter sy'n tyfu'n araf)</p> <p>h.y cyfrifon masnachu a gyflwynwyd ar gyfer y busnes; neu lythyr gan eich cyfrifydd; copiâu o anfonebau/derbynebau ar gyfer eich cynnyrch; neu ddisgrifio unrhyw gnydau yr ydych yn bwriadu eu tyfu a rhestru unrhyw dir, peiriannau neu offer y mae gennych fynediad iddynt; Neu bresenoldeb ar y rhyngwrwyd neu ar Dŷ'r Cwmnïau.</p>	<p>Gellir lawr lwytho tystiolaeth o'ch gweithgaredd DPP o'ch Storfa Sgiliau trwy eich cyfrif BOSS: Hafan BOSS</p> <p>Gellir trefnu sesiynau cymorth busnes un i un wedi'u hariannu'n llawn gydag ymgynghorydd i sicrhau bod gennych y ddogfennaeth a'r dystiolaeth gywir. Mae cymorth ar gael hefyd i ddatblygu cynllun marchnata neu gynaliadwyedd. Cysylltwch â Horticulture@lantra.co.uk</p>



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



<p>Dyfnbris</p>	<p>Mae angen tri dyfnbris ar gyfer pob eitem rydych yn eu rhestru y byddwch yn eu prynu gyda'r cyllid hwn sydd werth dros £5000.</p> <p>Os yw gwerth yr eitemau o dan £5000 yna mae un dyfnbris yn ddigon.</p>	<p>Eich busnes chi sy'n gyfrifol am gael dyfnbrisiau.</p>
<p>Cynllun Busnes gyda rhagamcanion ariannol tair blynedd</p>	<p>Mae angen cynllun prosiect gyda rhagamcanion ariannol ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau. Gall cynllun busnes helpu i ddenu buddsoddiad, ac mae'n werth ysgrifennu un, neu gael un wedi'i ysgrifennu i helpu i egluro angen y busnes, gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau ond hefyd i egluro ethos eich busnes.</p> <p>Bydd cynllun busnes hefyd yn cynnwys eich lefelau cydymffurfio, effaith ar yr economi wledig (e.e cyflogaeth, cefnogi digwyddiadau lleol, defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg), nodau tymor byr a hirdymor a thargedau cynaliadwyedd hirdymor. Bydd y rhagamcanion ariannol yn dangos hyfywedd economaidd y busnes.</p>	<p>Mae cymorth ar gael i ysgrifennu Cynllun Busnes drwy Cynllunio Busnes Cyswllt Ffermio a thrwy Gyngor Cyswllt Ffermio (sylwer nad yw'r cynnig hwn wedi'i ariannu'n llawn).</p>
<p>Deunydd ychwanegol</p>	<p>Pwysleisiwch eich ymrwymiad ar gyfer eich dyfodol, a sut mae'n cysylltu â Pholisi Llywodraeth Cymru e.e sut yr ydych yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol megis Cydraddoldeb.</p> <p>Gall cynllun busnes gynorthwyo i ddarparu'r lefel o fanylder sydd ei angen, gan gynnwys dangosyddion a chanlyniadau e.e nifer y swyddi a grëwyd.</p>	<p>Gall cymorth gan ymgynghorydd, a ariennir gan Garddwriaeth Cyswllt Ffermio, gynorthwyo gyda hyn. Cysylltwch â: Horticulture@lantra.co.uk</p>

Awgrymiadau wrth gwblhau cais:

- Byddwch yn barod gyda'r holl ddogfennau ategol
- Arbedwch y cais wrth i chi fynd drwy'r cais fel y gallwch fynd yn ôl ato rywdro arall
- Byddwch yn glir a sicrhewch eich bod yn deall yr angen busnes – am beth rydych chi'n ymgeisio? A yw'n eitem gymwys?
- Peidiwch â gadael y broses o gwblhau'r ffurflen gais tan y funud olaf a gwiriwch am unrhyw adegau lle nad yw'r RWP ar-lein ar gael ymlaen llaw
- Os oes angen caniatâd cynllunio - gellir gwneud hyn drwy adran gynllunio eich awdurdod lleol (gellir trefnu sesiwn gyngor un i un gyda Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ac ymgynghorydd cynllunio i helpu i bennu'r ystyriaethau hyn)
- Os yw'n berthnasol, gallwch ddysgu mwy am ofynion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)trwy Gorff Cymeradwyo SAB eich awdurdod lleol (gellir cynnwys hyn hefyd mewn trafodaeth un i un fel yr uchod)
- Byddwch yn glir ynghylch eich cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol (yr amgylchedd, hylendid, iechyd a diogelwch)
- Eglurwch unrhyw dechnoleg newydd sydd i'w chyflwyno a manteision hyn



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



**PEIDIWCH Â DECHRAU UNRHYW WAITH NES Y BYDD LLYWODRAETH CYMRU
WEDI CYNNIG CONTRACT**

- Os cynigir contract, efallai y bydd angen i chi ei dderbyn neu ei wrthod ar RPW ar-lein
- Sicrhewch eich bod yn prynu pob eitem fel y nodir yn y contract
- Darparwch dystiolaeth i ddangos eich bod wedi talu am yr holl eitemau a brynwyd
- Dylid cwblhau'r holl bryniant o fewn yr amser a ganiateir ar gontract



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

